

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 7 Hydref 2019 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc.

### Presennol:

Cyng. Auriol Williams (*Cadeirydd*)

Cyng. Lyn Jones

Cyng. Delyth Phillips

Cyng. Dilwyn Jenkins

Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Clive Davies (*Aelod lleol y Cyngor Sir*)

Cyng. Lloyd Jenkins (*Is-Gadeirydd*)

Cyng. Peter Williams

Cyng. Des Davies

Cyng. Lyn Jones

Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Hydref gan estyn croeso arbennig i Mrs Delyth Phillips i'w chyfarfod cyntaf.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Llinos Price a Matthew Morgan.

### 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol

Nodwyd bod enw'r Cynghorydd Eurig Lloyd wedi'i grybwyll yn hytrach na'r Cyng. Lloyd Jenkins yng nghofnodion mis Medi (Paragraff 6, ceisiadau am gymorth ariannol). Gwnaeth y Clerc nodyn i newid hyn.

Ar wahân i hyn, cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Jones fod cofnodion mis Medi yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Clerc. Paragraff 6 (cais ariannol Clwb Rhedeg Aberteifi); Cyng. Clive Davies (cais ariannol Hen Ysgol y Ferwig).

### 5. Materion yn codi:

(a) **Cywiro llwybr yng Ngwbart:** Dywedodd y Cyng. Dilwyn Jenkins fod y llwybr i'r traeth wrth Westy'r Cliff wedi bod ar gau tra'r oedd gwaith yn cael ei wneud yn y gwesty. Bu addewid y byddai hwn yn cael ei adfer. Roedd preswlydd wedi dod ato i gwyno nad oedd hi'n hawdd cerdded arno gan nad oes stepiau o'r hanner ffordd i lawr i'r traeth. Yn ogystal, roedd yna lwybr arall, lle'r arferai gât fod ar gael ar y gwaelod i'r 'Flat Rock'. Mae hwn bellach wedi'i gau gan ffens, ac felly'r llwybr heb ei ailagor. Bydd y Clerc a'r Cyng. Clive Davies yn cydweithio.

(b) **MD Recycling:** Yn dilyn gwahoddiad gan Gyngor Cymuned Llangoedmor i fynd i ymweld â'r safle ar y cyd, penderfynwyd gofyn i Gyngor Cymuned Llangoedmor drefnu'r dyddiad a rhoi gwybod i'r Clerc (Mrs Melanie Davies) a fyddai'n trosglwyddo'r wybodaeth i'r Cynghorwyr maes o law.

(c) **Annibyniaeth i Gymru:** Trafodwyd manteision ac anafanteision gwneud datganiad o Annibyniaeth i Gymru. Penderfynwyd peidio â gwneud hyn.

(d) **Cyfethol Cynghorydd Newydd:** Derbyniwyd Mrs Delyth Phillips yn gynghorydd lle gwnaeth y Datganiad Derbyn Swydd a'i arwyddo.

(e) **Baw ci ym Mhenyparc:** Trafodwyd y broblem a gofynnwyd a fyddai'n bosibl ail-wneud posteri i'w gosod yn y pentref. Cyng. Clive Davies i holi Rachel Mills o lechyd yr Amgylchedd i weld a fyddai modd iddynt gynhyrchu'r posteri. Soniodd hefyd am y gystadleuaeth yn Llechryd i ddylunio posteri. Byddai modd i E L Jones eu creu.

### 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig  
Canolfan Therapi Plant BOBATH Cymru  
Clwb Rhedeg Aberteifi

Friends of the Aberporth Centre for  
Children with Special Needs

I'w drafod ym mis Ebrill  
I'w drafod ym mis Ebrill  
£150 (cynigiwyd gan Cyng. Dilwyn Jenkins, eiliwyd gan Cyng.  
Peter Williams)  
£200 (cynigiwyd gan Cyng. Lloyd Jenkins, eiliwyd gan Cyng.  
Dilwyn Jenkins)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Tregaron  
2020

£500  
Penderfynwyd y dylai'r Cyngor gyfrannu at hwn yn yr un modd â chymunedau eraill Ceredigion. Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones, eiliwyd gan Cyng. Lloyd Jenkins.

## 7. Cynllunio:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A190635	<b>Fourwinds, Gwbert</b> Ymestyn y balconi presennol yng nghefn yr eiddo.	Cymeradwyo
A190683	<b>Gwesty'r Cliff, Gwbert</b> Estyniad i'r ystafell wydr	Cymeradwyo

Anfonwyd y sylwadau uchod ymlaen wedi'r cyfarfod.

## 8. Materion Ariannol

### Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Medi 2019)	101804	£308.97
Costau'r Clerc (Medi 2019)	101805	£54.60
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Medi 2019)	101806	£77.00
Brwsh (Farnis)	101807	£37.69
SSE Swalec	101808	£115.66

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod y biliau uchod yn cael eu talu.

### Materion ariannol eraill

Dosbarthwyd adroddiad y cyfrifon am y tri mis hyd at 30 Medi i'r aelodau. Bydd yn cael ei gyflwyno eto yng nghyfarfod mis Tachwedd yn dilyn problem wrth fewnbynnu data mis Medi.

## 9. Gohebiaeth:

24	Cyngor Sir Ceredigion	Praesept 2020/2021. Blaenrybudd o ffurflenni Praesept fydd yn cyrraedd ym mis Rhagfyr. Angen ffigyrau erbyn 25 Ionawr 2020.	Trafodwyd yr angen i feddwl am Gae Gwyrdd – mae angen gwario arian i wella'r gymuned a helpu achosion lleol. Hwn i'w drafod ym mis Ionawr.
25	Swyddfa Ystadegau Gwladol.	Pamffled ar Ymarfer y Cyfrifiad	Nodwyd
26	Un Llais Cymru	Profforma Cyngorau Tref a Chymuned	Nodwyd

## 10. Materion Eraill:

- Diffibriliwr:** Cyng. Clive Davies i holi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol eto am gyfraniad. Rhoddodd y Clerc wybodaeth am gostau.
- Cinio'r Henoed:** Angen i'r Clerc drefnu dyddiad gyda'r Clwb Golf.
- Mannau Gwyrdd:** Trafodwyd bod ambell i fan gwyrdd heb bwrpas penodol lle byddai'n hyfryd gweld blodau gwyllt. Clerc i gysylltu â'r Prosiect "Rewilding" i holi am hyn.

## 11. Adroddiad y Cyngorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

- Ysgol Gymunedol Penparc:** Bu mewn cyfarfod gyda Phennaeth Cynnal a Chadw'r Cyngor a'r Cyng. Llinos Price i drafod anghenion yr ysgol. Angen trafod gyda'r llywodraethwyr.
- Cronfa Ddŵr Penparc:** Dywedwyd bod hwn wedi'i drwsio ond mae'r problemau'n parhau. Bydd y Cyngorydd yn parhau i gadw llygad.
- Speedwatch:** Mae angen un enw arall ar gyfer hwn.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (d) **Golau Stryd Heol y Felin:** Llawer o waith cymhleth wedi mynd rhagddo. Mae'n cael ei ddatrys.
- (e) **Place Plans:** Dywedodd fod yr Ymgynghorydd Cynllunio'n dechrau tynnu pethau ynghyd.
- (f) **Cynllun Datblygu Lleol:** Dyddiad cau ar gyfer hwn wedi mynd heibio. Cyngor Cymuned heb gyflwyno unrhyw beth.
- (g) **Adolygiad o oryrru:** Dywedodd fod llinellau wedi'u gosod ar ffyrdd ar draws Ceredigion i wneud adolygiad o oryrru ledled y Sir.
- (h) **Un Llais Cymru:** Nododd mai fe fydd y siaradwr gwadd yng nghynhadledd Un Llais Cymru.
- (i) **Cyfarfod â Lee Waters:** Nododd y byddai'n cwrdd â Lee Waters (Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru) yn fuan a gofynnodd i unrhyw un roi gwybod os oes unrhyw beth angen ei godi. Byddai'n codi mater y llwybr troed arfaethedig rhwng Penyparc ac Aberteifi.

## 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf 4 Tachwedd (F)

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2019: 2 Rhagfyr (YB)**

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 7 October, 2019 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.

### Present

Cllr. Auriol Williams (*Chairperson*)

Cllr. Lyn Jones

Cllr. Dilwyn Jenkins

Cllr. Eurig Lloyd

Cllr. Delyth Phillips

Cllr. Clive Davies (*Local member of the County Council*)

Cllr. Lloyd Jenkins (*Vice Chair*)

Cllr. Peter Williams

Cllr. Des Davies

Cllr. Lyn Jones

Mrs Melanie Davies (*Clerk*)

**1. Chairperson's welcome:** The Chairperson, Cllr. Auriol Williams, welcomed everyone to the October meeting and extended a special welcome to Mrs Delyth Phillips to her inaugural meeting.

**2. Apologies for absence:** Cllrs Llinos Price and Matthew Morgan.

### **3. Minutes of the previous meeting**

It was noted that Councillor Eurig Lloyd's name had been included rather than Cllr. Lloyd Jenkins in the September minutes (Paragraph 6, requests for financial support) of which the Clerk noted.

Having noted this, it was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Lyn Jones that the minutes of the September meeting be recorded as correct.

**4. Declaration of personal interests:** Clerk: Paragraph 6 (Cardigan Running Club request); Cllr. Clive Davies (Hen Ysgol y Ferwig request).

### **5. Matters arising:**

(a) **Rectifying a path at Gwbert:** Cllr. Dilwyn Jenkins noted that the path to the beach from the Cliff Hotel has been closed for work at the hotel. It was promised that this would be reinstated. He has been approached by a resident complaining that it's not easy to walk on the path as there are no steps half way down to the beach. In addition, there was another path, where there used to be a gate at the bottom leading to "Flat Rock". This has now been closed by a fence and therefore the path has not been re-opened. The Clerk and Cllr. Clive Davies will liaise regarding this.

(b) **MD Recycling:** Following an invitation from Llangoedmor Community Council to jointly visit the site, it was decided that Llangoedmor Community Council would be asked to arrange a date and inform the Clerk (i.e. Mrs Melanie Davies) who would then relay the information to Councillors.

(c) **Independence for Wales:** The Council discussed the pros and cons of making a statement for an Independent Wales. The Council decided against making a statement.

(d) **Co-opting of a New Councillor:** Mrs Delyth Phillips was accepted as the new Councillor and subsequently completed and signed the statement of Acceptance of the Role.

(e) **Dog mess in Penyparc:** This problem was discussed and it was asked whether posters could be re-issued to be placed around the village. Cllr. Clive Davies would ask Rachel Mills from the Environment Agency if they could produce posters. He also mentioned the competition being held at Llechryd to design posters. E L Jones could also produce them.

### **6. Requests for financial support.**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig

BOBATH Children's Therapy Centre Wales

Cardigan Running Club

Friends of the Aberporth Centre for

Children with Special Needs

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Tregaron

2020

To be discussed in April

To be discussed in April

£150 (proposed by Cllr. Dilwyn Jenkins, seconded by Cllr. Peter Williams)

£200 (proposed by Cllr. Lloyd Jenkins, seconded by Cllr. Dilwyn Jenkins)

£500

It was decided that the Council should contribute to this as one of Ceredigion's communities. (Proposed by

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cllr. Lyn Jones, seconded by Cllr. Lloyd Jenkins)

## 7. Planning:

	<i>Address and purpose</i>	<i>Council's observations.</i>
A190635	<b>Fourwinds, Gwbert</b> Extend the current balcony at the rear of the property	Approve
A190683	<b>Cliff Hotel, Gwbert</b> Extension to the conservatory	Approve

Above comments were submitted following the meeting.

## 8. Financial Matters

### Bills paid:

Clerk's salary (September 2019)	101804	£308.97
Clerk's expenses (September 2019)	101805	£54.60
HMRC: Clerk's Income Tax (September 2019)	101806	£77.00
Brwsh (Varnish)	101807	£37.69
SSE (Swalec)	101808	£115.66

It was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the above bills be paid.

### Other financial matters

The quarterly financial report up to 30 September was distributed to members. It will be resubmitted in November due to a data inputting error regarding September.

## 9. Correspondence:

24	Ceredigion County Council (Finance Dept.)	Precept 2020/2021. Pre-warning of Precept forms which will arrive in December. Figures will be needed by 25 January 2020.	The requirement to think of Cae Gwyrdd was discussed – money needs to be spent improving the community and helping local causes. This to be discussed in January.
25	Office of National Statistics	Pamphlet on Census Rehearsal	Noted.
26	One Voice Wales	Town and Community Councils' Proforma	Noted.

## 10. Other Matters:

- Defibrillator:** Cllr. Clive Davies to ask National Trust again for a contribution. Clerk informed the Council of the costs involved.
- Senior Citizens' Christmas Lunch:** Clerk needs to arrange a date with the Golf Club.
- Green Spaces:** It was discussed that some green spaces serve no specific purpose and it would be pleasing to see wild flowers growing on such spaces. Clerk to contact the "Rewilding" project to enquire.

## 11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- Ysgol Gymunedol Penparc:** He attended a meeting with the County Council's Head of Maintenance and Cllr. Llinos Price to discuss the needs of the school. Need to discuss with governors.
- Penyparc Reservoir:** It had been stated that this was now fixed but problems are ongoing. The Councillor will continue to observe this issue.
- Speedwatch:** One more name is needed for this.
- Heol y Felin Street lights:** A lot of complex work has been undertaken which is being resolved.
- Place Plans:** The Planning Consultant is now starting to pull everything together.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (f) **LDP:** The closing date for this has now lapsed. Nothing has been submitted by the Council.
- (g) **Review of Speeding:** It was stated that lines had been placed across Ceredigion in order to complete a review of speeding throughout the county.
- (h) **One Voice Wales:** He noted that he would be guest speaker at the One Voice Wales conference.
- (i) **Meeting with Lee Waters:** He noted that he would meet Lee Waters (Welsh Government Economy and Transport Minister) soon and asked whether anyone would like to raise anything. He would raise the issue of the proposed footpath between Penyparc and Cardigan.

**12. Date of next meeting:** 4 November 2019 at Hen Ysgol y Ferwig

**Dates of Council Meetings for 2019:** 2 December (YB)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting